**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paul Loveluck CBE YH
Llywydd
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

Annwyl Paul,

14 Chwefror 2011

**Amgueddfa Cymru: Llythyr Cylch Gwaith 2011-12**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi Llythyr Cylch Gwaith Amgueddfa Cymru (yr Amgueddfa) ar gyfer 2011-12.

Rôl yr Amgueddfa, fel y'i nodwyd yn yr amcanion yn ei Siarter Frenhinol, yw hyrwyddo addysg y cyhoedd.

Mae'r Amgueddfa yn parhau i wneud cyfraniad pwysig iawn i nifer o'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y ddogfen *Cymru'n Un*, yn enwedig:

- Diwylliant cyfoethog ac amrywiol
- Dysgu i fyw
- Cymdeithas lewyrchus

Mae darparu gwasanaethau agored sydd o fewn cyrraedd i ddinasyddion Cymru yn rhan annatod o amcanion *Cymru'n Un* a *Gweledigaeth* yr Amgueddfa. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, sydd wedi dod â heriau penodol i'r sector cyhoeddus cyfan, mae swyddogaeth yr Amgueddfa, o ran cynnig profiad dysgu diwylliannol o ansawdd uchel i ddinasyddion Cymru am ddim, gwella lles ac ansawdd bywyd a helpu'r agenda dwristiaeth, yn cael ei phrisio'n fawr.

Gan adeiladu ar yr Uwchgynhadledd ar Ddiwylliant a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2010, rwyf am weld mwy o gydweithio rhwng ac ar draws sefydliadau diwylliannol. Ein nod ddylai fod sicrhau cymaint o fanteision i'r cyhoedd ag y gallwn drwy weithio mewn partneriaeth. Fy mwriad i yw gweld partneriaethau creadigol newydd neu sydd wedi'u cryfhau yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn ogystal â gwaith craidd yr Amgueddfa fel y'i hamlinellir yn ei Siarter, dyma fy mlaenoriaethau ar gyfer Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn i ddod:

**Cyflawni'r prosiectau cyfalaf, a'r rhaglenni o ddigwyddiadau a gweithgareddau, sydd wedi eu nodi fel blaenoriaethau yng *Ngweledigaeth* yr Amgueddfa ar gyfer**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.alunffred.jones @Wales.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*    *Printed on 100% recycled paper*

**y dyfodol, a pharhau i ymchwilio i ffrydiau ariannu ychwanegol er mwyn eu cyflawni,** gan gynnwys:

- Cwblhau prosiect Amgueddfa Gelf Cenedlaethol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd drwy agor Adain Uchaf y Gorllewin ar gyfer celfyddyd fodern a chyfoes;
- Bwrw ymlaen â gwaith seilwaith allweddol yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru a pharhau â'r gwaith cysyniadol, codi arian ac eirioli ar gyfer y pwrpas ehangach o ailddatblygu'r safle;
- Parhau â'r gwaith cwmpasu i droi llawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ofod wedi'i neilltuo ar gyfer Hanes Naturiol.

**Darparu rhaglen ehangach o weithgareddau mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys y CNLCau eraill o fewn y Portffolio Treftadaeth, er mwyn sicrhau bod casgliadau'r Amgueddfa o fewn cyrraedd i fwy o bobl drwy Gymru gyfan a helpu i ddarparu gwasanaeth treftadaeth a diwylliant mwy cydgysylltiedig,** gan gynnwys:

- Datblygu cynlluniau *Cyfoeth Cymru Gyfan* a *Celf Cymru Gyfan*;
- Parhau i chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o ddarparu *Casgliad y Werin Cymru* fel gwasanaeth gweithredol;
- Helpu CyMAL i weithredu *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy arwain y gwaith ar y pwyntiau gweithredu allweddol a helpu i'w gweithredu er mwyn helpu a datblygu'r sector amgueddfeydd ehangach; a
- Datblygu cysylltiadau strategol cynaliadwy a hirdymor ag ystod o gyrff diwylliannol eraill, gan gynnwys Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, er mwyn gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr a lleihau ymrwymiadau o ran refeniw yn y dyfodol, ac i roi tystiolaeth yn rheolaidd o'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**Datblygu proffil casgliadau a gweithgareddau ymchwil yr Amgueddfa yn genedlaethol, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol,** gan gynnwys:

- Hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol drwy ystod o raglenni a gweithgareddau.

**Galluogi a hyrwyddo mynediad i gasgliadau a gwasanaethau'r Amgueddfa yng Nghymru drwyddi draw gan bob aelod o gymdeithas, gan dalu sylw arbennig i anghenion cymunedau dan anfantais a grwpiau lleiafrifol,** drwy

- Barhau â'r polisi o fynediad am ddim i bob ymwelydd â phob safle;
- Sicrhau cymaint o fynediad cynhwysol â phosibl i bob safle, digwyddiad a gweithgaredd er mwyn diwallu anghenion pob grŵp yn y gymdeithas; a
- Gwneud gwaith ymchwil i asesu gwaith yr Amgueddfa i sicrhau bod pawb yn y gymdeithas yn gallu ymweld â'i safleoedd a'i chasgliadau, gan ystyried effaith mynediad am ddim yn benodol.

**Gwella a rheoli casgliadau, ystadau ac adnoddau'r Amgueddfa'n effeithiol**, drwy:

- Barhau i nodi a manteisio ar gyfleoedd priodol i gynyddu incwm i gefnogi amcanion hirdymor yr Amgueddfa, drwy godi refeniw ar safleoedd a thrwy godi arian gydag ymddiriedolaethau, cwmnïau ac unigolion;
- Parhau i nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd priodol;
- Parhau i gymryd camau priodol i sicrhau bod Cynllun Pensiwn yr Amgueddfa yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Parhau i ddefnyddio adnoddau a gweithgareddau'r Amgueddfa i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a helpu Strategaeth Cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru; a

- Datblygu casgliadau'r Amgueddfa i gyflawni diben ei Siarter.

Manylir yn y tablau a ganlyn y cymorth grant a roddir i'r Amgueddfa er mwyn cynnal y gwaith hwn.

**REFENIW £000oedd**

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| **Costau Rhedeg Gros** | 24,541 | 24,051 | 24,040 |
| **Derbyniadau** | (1,604) | (1,604) | (1,604) |
| **Dibrisiant** | 1,120 | 1,120 | 1,120 |
| **Costau Rhedeg Net** | 24,057 | 23,567 | 23,556 |

**CYFALAF £000oedd**

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| **Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf** | 600 | 600 | 600 |
| **Grant Prynu Eitemau** | 538 | 538 | 538 |

Yn ogystal â'r uchod, mae cyfanswm o £3.98 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi ei ddyrannu ar gyfer y prosiect ailddatblygu Sain Ffagan dros y tair blynedd 2011-12 i 2013-14. Bydd dyraniadau flwyddyn i flwyddyn yn cael eu cadarnhau maes o law.

Telir y grant ar yr amod y cydymffurfir â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yr Amgueddfa. Fel yn achos pob un o gylchoedd cynllunio'r gyllideb, mae blynyddoedd 2 a 3 yn ddangosol ar hyn o bryd ac at ddibenion cynllunio yn unig.

Mae Cynllun Gweithredol yr Amgueddfa yn nodi sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni'r targedau a'r amcanion hyn ar gyfer y flwyddyn. Bydd angen i chi gyflwyno'ch Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2011-12 erbyn 28 Chwefror 2011. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i'r cynllun gael ei drafod gyda'ch adran noddi er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol a'i lofnodi gan eich Bwrdd Ymddiriedolwyr ar 7 Ebrill 2011 a minnau yn fuan wedi hynny. Ceir gwybodaeth bellach am y gofynion ar gyfer Cynllun Gweithredol yr Amgueddfa yn Atodiad 2.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am yr egni a'r ymroddiad a ddangoswyd gennych chi, eich cyd-Ymddiriedolwyr a swyddogion yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i chi ddangos y gwerth sy'n parhau i ddeillio o fuddsoddi mewn diwylliant a threftadaeth, ac edrychaf ymlaen at gael gweithio gydag Amgueddfa Cymru ar yr agenda blaengar hwn ar gyfer 2011-12.

**Alun Ffred Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Dreftadaeth/Minister for Heritage

## Atodiad 1: Y Cefndir i'r Llythyr Cylch Gwaith

### Perthynas gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn ogystal â bod yn gorff a ymgorfforwyd drwy Siarter Frenhinol ac yn Elusen Gofrestredig, mae'r Amgueddfa hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC), sy'n cael arian oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yw'r isadran sy'n noddi Amgueddfa Cymru. Mae'r berthynas rhwng Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei nodi yn y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol.

### Yr Agenda Strategol

Mae agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007-11 yn cael ei hamlinellu yn y ddogfen *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru.* Uchelgais *Cymru'n Un* yw *"gweddnewid Cymru a'i throi'n genedl a chymdeithas hyderus, ffyniannus, iach sy'n deg â phawb".*

Disgwylir i bob CNLC gydnabod agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a gweithredu yn unol â hi.

### Adolygiadau Llywodraethu CNLCau

Yn 2010-11, fe wnaethom ni eich cynghori chi am y rhaglen o adolygiadau llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ein bwriad yw ymgymryd ag Adolygiad Llywodraethu o'r Amgueddfa yn ystod 2011-12 a byddwn yn cysylltu gyda chi i drafod amseriad yr Adolygiad maes o law.

### Cynllunio Strategol a Gweithredol

Mae'r Amgueddfa yn paratoi Cynllun Gweithredol blynyddol sy'n mynd ati i amlinellu'n fanylach sut y bydd yr Amgueddfa yn gweithredu'r blaenoriaethau a'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y llythyr Cylch Gwaith hwn ar gyfer yr Amgueddfa ar gyfer 2011-12, ynghyd â chyflawni ei hamcanion strategol fel y'u nodir ym *Map Gweledigaeth* yr Amgueddfa.

### Effeithlonrwydd

Mae gwella effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau y ceir y gwerth gorau posibl am arian o fuddsoddiad cyhoeddus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael. Eir ati i goladu gwybodaeth yn ymwneud ag effeithlonrwydd ar draws holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Atodiad 2: Canllawiau ar y Cynllun Gweithredol

Bydd gofyn i chi gyflwyno'ch Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2011-12 erbyn 28 Chwefror 2011. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i chi drafod y cynllun gyda'ch adran noddi er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol a'i lofnodi gan eich Bwrdd Ymddiriedolwyr ar 7 Ebrill 2011 a minnau yn fuan wedi hynny.

### Dangosyddion Perfformiad

Byddwch yn cytuno ar dargedau perfformiad gyda'ch adran noddi, a bydd y targedau hyn yn cynnwys y targedau craidd canlynol, a gaiff eu monitro gan yr Adran Dreftadaeth:

- Cyfanswm yr ymweliadau
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- Nifer yr ymweliadau â'r wefan
- Nifer y lleoliadau sydd wedi cael benthyg eitemau gennym

### Cyflawni

Dylai eich Cynllun Gweithredol nodi sut y bydd yr Amgueddfa yn gwneud y canlynol:

- Cyflawni a gwerthuso rhaglenni gwaith, gan gynnwys dyrannu adnoddau, pennu cerrig milltir, targedau a risgiau;
- Pennu targedau ar gyfer cynhyrchu incwm ac arbedion effeithlonrwydd. Byddaf yn comisiynu adroddiad ar gynnydd yn y meysydd hyn ar draws CNLCau i'w gyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2011;
- Cyfrannu at waith cyrff cyhoeddus eraill, gan nodi unrhyw gynigion i weithio mewn partneriaeth â CNLCau eraill a phartneriaid eraill, er mwyn helpu i sicrhau darparu canlyniadau allweddol sydd, yn eu hanfod, yn cwmpasu mwy nag un corff;
- Cyfathrebu, meithrin cysylltiadau a chydweithio'n agos â'r Sectorau Gwirfoddol a Phreifat;
- Helpu i weithredu Cynllun Gofodol Cymru a chyflawni Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol, lle y bo modd;
- Helpu i weithredu'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy;
- Ymgysylltu'n ystyrlon â'r cyhoedd drwy'ch ymarferion ymgynghori rheolaidd;
- Prif ffrydio datblygu cynaliadwy[1], cydraddoldeb[2], gweithio mewn partneriaeth[3], a hyrwyddo'r Gymraeg[4] yn y modd yr ydych yn cynnal eich busnes (gan gynnwys gwneud hynny yn eich gwaith rheoli ystadau, yn eich prosesau caffael a thrwy'r gweithgareddau sy'n rhan o'ch rhaglenni), a chydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol;
- Asesu goblygiadau eich penderfyniadau cyllidebol ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb; a
- Dangos eich ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru[5].

---

[1] Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[2] Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ynghyd â dyletswyddau ychwanegol sydd ar y sector cyhoeddus yn sgil Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2006.

[3] Mae dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad, o dan adrannau 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i hybu buddiannau Llywodraeth Leol, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Busnes.

[4] Fel y'i nodir yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

[5] Mae dyletswydd ar awdurdodau Cymru, o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i lunio eu strategaeth tlodi plant eu hunain.

- Byddem yn croesawu ymrwymiad parhaus yr Amgueddfa â'r fenter Cymunedau'n Gyntaf, gan dargedu gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol, yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru. Byddem yn croesawu cynhwysiant y gwaith a wnaed mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, yn arbennig gyda Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, mewn adroddiadau chwarterol a blynyddol.

**Cyfathrebu**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gael gweld Cynllun Cyfathrebu'r Amgueddfa, a dylai gynnwys trefniadau i fesur pa mor effeithiol yw'r camau a gymerir i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod am hynt eich gwaith.

Gan mai chi yw arweinwyr y sector yng Nghymru, yn ddelfrydol dylai'r Cynllun hefyd esbonio sut y gallwch ddatblygu ymhellach ddulliau a rhwydweithiau er mwyn rhannu arferion gorau a negeseuon ymhlith rhanddeiliaid a darparwyr ar draws y sector. Yn ogystal, dylai'r Cynllun nodi sut y gallwch gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i esbonio ein hymrwymiad i gynnig cyfleoedd i bawb fanteisio ar ein treftadaeth gyfoethog ac amrywiol, gan sefydlu Cymru'n genedl gref a hyderus ar y llwyfan rhyngwladol.

Nid wyf yn bwriadu ailadrodd canllawiau blaenorol mewn meysydd megis Caffael, Diogelu Data, Parhad Busnes a Chyllid Ewropeaidd, ond afraid dweud eu bod yn dal i fod yn berthnasol, a dylech eu cadw mewn cof wrth ymgymryd â'ch busnes arferol.